

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	28 Medi 2026
Pwnc:	Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm Dros Adrodd: Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt.	

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r cofnod gweithredu hwn yn cael ei ddiweddarau cyn pob cyfarfod er mwyn galluogi'r pwyllgor i fonitro cynnydd a chwblhau'r camau/penderfyniadau y mae wedi cytuno arnynt.

2. Argymhellion

- 2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Rhif	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Gweithred	Perchennog y Weithred	Camau a Gymerwyd	Statws
35	16/07/26	9	Y Pennaeth Archwilio a Risg i godi gyda'r Rheolwr Gweithredol y posibilrwydd o ymgorffori cerrig milltir i sicrhau y gellir monitro camau gweithredu tymor hir yn gliriach ynghyd ag atodiad i ddangos y camau interim ar gyfer cyflawni camau lliniaru tymor hir.	Pennaeth Archwilio a Risg / Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth)	Ar 24/07/26, cododd y Pennaeth Archwilio a Risg y mater hwn gyda'r Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth). Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) y byddent yn gweithio ar ymgorffori cerrig milltir, gan ddangos y camau interim ar gyfer cyflawni camau lliniaru hirdymor. Bydd diweddariad nesaf y Gofrestr Risg Strategol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3 Rhagfyr 2026.	Ar y gweill
36	16/07/26	12	Gofyn bod adroddiadau blynyddol lechyd a Diogelwch Corfforaethol yn y dyfodol yn cynnwys manylion am ddadansoddiad achosion sylfaenol, lliniariadau a roddwyd ar waith, amserlenni ar gyfer cwblhau camau gweithredu, a chynnydd ar fesurau a weithredir er mwyn darparu sicrwydd cliriach ar sut mae risgiau yn cael eu rheoli.	Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd / Rheolwr lechyd a Diogelwch Corfforaethol	Bydd yr adroddiad blynyddol nesaf ar lechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2027.	